Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales | 20 Ugain Mlynedd Twenty Years

# Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr

## Cyflwyniad

Gallwn edrych ar gwynion am Ddarparwyr Iechyd Cymunedol Annibynnol, a all gynnwys deintyddion cymunedol, optegwyr a fferyllwyr sy'n darparu gwasanaeth ar eich cyfer dan gontract i'r Bwrdd Iechyd Lleol. Dylech nodi na allwn ond edrych ar gwynion am ofal a ariennir gan y GIG; ni allwn edrych ar driniaeth cymuned a rhoddir yn breifat.

Gall Darparwyr Iechyd Cymunedol Annibynnol fod yn gweithio fel ymarferwyr unigol, gydag ymarferwyr eraill fel rhan o bractis, neu fel rhan o gwmni mwy o faint. Fel arfer, mae staff practis, megis derbynwyr neu nyrsys, yn cael eu cyflogi gan y practis (neu'r cwmni), a bydd hwnnw'n gyfrifol am eu gweithredoedd.

## Yr hyn gallwn ei wneud

Gallwn:

- edrych ar gwynion am safon y gofal clinigol a rhoddir ar eich cyfer chi, eich plentyn, neu rywun arall a gynrychiolir gennych;
- edrych ar gwynion ynghylch gweinyddiaeth yn mynd o'i le, neu wasanaeth gwael arall a rhoddir ar ran y GIG;
- edrych ar gwynion am sut mae triniaeth ddeintyddol GIG wedi cael ei gwrthod i chi heb reswm priodol.

## Yr hyn na allwn ei wneud

Ni allwn:

- atal deintydd neu optegydd neu fferyllydd rhag ymarfer – ond os yw'r ymchwiliad yn awgrymu bod yna bryderon difrifol ynglŷn â chymhwysedd proffesiynol, gallwn roi gwybod i'r corff rheoleiddio perthnasol;
- ymyrryd yn eich triniaeth gyfredol, cael ail farn ar eich cyfer, neu drefnu i chi gael triniaeth arall os yw'r math o driniaeth a gynigir ichi ar hyn o bryd yn rhesymol;
- mynnu eich bod yn cael ei gweld mewn deintyddfa benodol neu gan optegydd penodol.

## Materion i gadw mewn cof

Nid oes gennych hawl i gael eich gweld gan Ymarferydd Cymunedol Annibynnol, ond yn ymarferol mae pobl yn aml yn cael eu gweld gan yr un deintydd neu optegydd. Hefyd, mae sawl achos pryd y mae gan

ddeintyddion y caniatâd i wrthod trin cleifion GIG os ydynt wedi cychwyn ar eu triniaeth yn barod; er enghraifft pan fo'r ymarferydd yn teimlo bod y berthynas broffesiynol rhwng y deintydd a'r claf wedi methu. Mewn achosion o'r fath, dylech gael rhesymau pam fod triniaeth yn cael ei gwrthod. Fel arfer, ni ddylai triniaeth gael ei gwrthod o ganlyniad i wneud cwyn.

Wrth edrych ar gwynion ynglŷn â safon y gofal clinigol a gafwyd gan ddeintydd, optegydd neu fferyllydd, byddwn yn asesu a oedd y gofal a ddarparwyd yn un o safon briodol (ar gael ar y dudalen 'Safonau Clinigol', o dan y tab 'Er darparwyr gwasanaeth') yn yr amgylchiadau ar y pryd.

## Gwybodaeth bellach

Gall **Llais** roi help a chefnogaeth yn rhad ac am ddim i chi wrth i chi wneud cwyn am wasanaeth gan y GIG. Gallwch gysylltu â nhw trwy eu llinell gymorth ar **02920 235 558.**

Efallai y gall eich **Bwrdd Iechyd Lleol** eich cynorthwyo hefyd. Ceir manylion cyswllt y gwahanol Fyrddau Iechyd yng Nghymru yn https://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur.

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

# Hawdd ei Ddarllen

Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr